PWYLLGOR DIOGELU'R CYHOEDD

DYDD MAWRTH, 7 MAWRTH 2017

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Parry(Caedeirydd) |
| | Y Cynghorwyr Murphy, Boyle, Goddard, Hudson, Kelloway, Simmons a/ac Lloyd |

36 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

37 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

38 : COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Chwefror 2017 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

39 : AMODAU DROS DRO AR GYFER MASNACHU AR Y STRYD – ROWND DERFYNOL CYNGHRAIR Y PENCAMPWYR UEFA 2017

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn cynnig diwygio'r amodau dros dro presennol ar gyfer masnachu ar y stryd er mwyn caniatáu i fasnachu ar y stryd ddigwydd yng Nghanol y Ddinas pan fydd Caerdydd yn cynnal Rownd Derfynol Cynghrair y Pencampwyr UEFA ar 3 Mehefin 2017.

Hysbyswyd Aelodau fod yr awdurdod wedi cymeradwyo cyfres o amodau masnachu ar y stryd sydd wedi'u hatodi at bob caniatâd masnachu ar y stryd. Atodwyd yr amodau presennol at yr adroddiad. Oherwydd natur unigryw Rownd Derfynol Cynghrair y Pencampwyr, roedd angen diwygio'r amodau dros dro presennol er mwyn caniatáu i fasnachu ar y stryd ddigwydd yn gyfreithlon ac i gydymffurfio'n llwyr â phob amod caniatáu. Cafodd yr amodau diwygiedig hefyd eu hatodi at yr adroddiad. Darparwyd trosolwg sydyn o'r amodau diwygiedig gan swyddogion.

PENDERFYNWYD:

(1) Y dylid cymeradwyo'r amodau dros dro ar gyfer masnachu ar y stryd a nodir yn Atodiad B yr adroddiad;

Y dylai Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir gael ei awdurdodi i wneud unrhyw ddiwygiadau gweinyddol/bach i'r amodau dros dro mewn achos o newidiadau gweithrediadol i'r cynlluniau masnachu.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.45 am